

## Datganiad ar Adfer Mawndiroedd, Afonydd a Gwlyptiroedd

Dr Paul Sinnadurai FCIEEM

**Dyddiad cymeradwyo gan BBNPA: 26 Mai 2020**

**Dyddiad adolygu (wedi'i bennu ddwy flynedd o'r dyddiad cymeradwyo): 25 Mai 2022**

### Y mater

Mae adroddiad y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd (Awst 2019), ynghyd ag adroddiad y Platform Polisi Gwyddoniaeth Rhynglywodraethol ar Wasanaethau Bioamrywiaeth ac Ecosystemau<sup>1</sup> (Mai 2019) ill dau yn nodi bod yn rhaid i ni gyflawni newid trawsnewidiol i gyfyngu'r codiadau cyfartalog blynyddol mewn tymheredd byd-eang i fod o fewn 1.5°C o lefelau 1990, ac i wyrdroi'r gostyngiad brawychus mewn bioamrywiaeth byd-eang yn ystod yr achos hwn o ddiflaniad Anthroposen. Rydym yn cydnabod bod yr IPCC yn blaenoriaethu: yn gyntaf, i leihau allyriadau; yn ail, i roi terfyn ar golli cynefinoedd presennol a'u hadfer pan fo hynny'n bosibl; ac yn drydydd, creu coedwigoedd a chynefinoedd.

Mae gwarchod ac adfer mawndiroedd, afonydd a gwlyptiroedd yn rhan annatod o hyn, yn arbennig mewn Parc Cenedlaethol sy'n llawn o ucheldir, mawndir a gwlyptir ond yn brin o goedwigoedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi methu yn ei huchelgais i sicrhau rheolaeth adfer i holl fawndiroedd Cymru erbyn 2020 ac mae disgwyl iddi fabwysiadu Cynllun Gweithredu Mawndiroedd Cymru yn ystod 2020. Yn ei dro, mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur y Bartneriaeth Natur Leol "*Dyfodol Gyda Natur yn Ganolog Iddi*"<sup>2</sup> yn cynnwys sawl blaenoriaeth, a'r pwyslais ar fawndiroedd a gwlyptiroedd yw "*cytuno ar ecosystemau sylfaenol a/neu ardaloedd daearyddol ar gyfer datblygu prosiectau a chyllid sy'n canolbwyntio ar y Cynllun Gweithredu Adfer Natur (i gefnogi'r nod o gael rhwydweithiau adfer natur 'mwy, gwell a mwy cydgysylltiedig')*" a "*Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o rwydweithiau cynefinoedd yr ucheldir er mwyn meithrin mwy o gysylltedd rhwng pobl leol a'r ucheldiroedd ac annog arferion rheoli mwy cyfeillgar i natur.*"

### Y dystiolaeth

Mae amrywiaeth o astudiaethau wedi dangos y buddion niferus sydd ynghlwm wrth adfer mawndiroedd (Atodiad I). Ymhlith yr opsiynau niferus ar gyfer dileu CO<sub>2</sub> cyf atmosfferig neu atal rhagor o allyriadau CO<sub>2</sub> cyf o'r tir, mae adfer mawndiroedd yn ddull sydd wedi'i brofi. Er bod adfer mawndiroedd wedi'i ysgogi hefyd gan yr angen i adfer natur a thirwedd, mae gwarchod ac adfer mawndiroedd sydd wedi erydu a'i ddraenio'n ddifrifol yn arbennig o bwysig i atal rhagor o allyriadau CO<sub>2</sub> cyf; mae'r math hwn o ddifrod i fawndiroedd yn fwy cyffredin ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog nag yn unman arall yng Nghymru.

Rydym eisoes yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o brosiectau adfer mawndiroedd, gan gynnwys Prosiect Mawndiroedd Cymru, Partneriaeth Defnydd Tir y Mynyddoedd Duon, prosiect adfer cors Waun Figen Felen, amrywiaeth o brosiectau adfer llwybrau ucheldir sy'n fuddiol i orgors, a sawl prosiect sy'n fuddiol i gyforgorsydd iseldir. Rydym hefyd yn cefnogi ymchwil gymhwysol sy'n fuddiol i orgorsydd a chyforgorsydd iseldir (Atodiad I).

### Ein dadansoddiad

Mae'r buddion niferus a ddaw yn sgil mawndiroedd, afonydd a gwlyptiroedd iach a gweithredol, pan fo gyfoeth o fioamrywiaeth eisoes, yn cynnwys:

<sup>1</sup> <https://www.ipbes.net/global-assessment-report-biodiversity-ecosystem-services>

<sup>2</sup> <https://www.beacons-mpa.gov.uk/wp-content/uploads/BBNPA-Nature-Recovery-A4-WEL-WEB.pdf>

Dal a storio CO<sub>2</sub>  
Cylchoedd carbon ac ocsigen iach  
Bwyd naturiol  
Dŵ r  
Gwella ansawdd dŵ r  
Ymdreiddiad dŵ r i'r dirwedd  
Gwella llifogydd

Cadwraeth ecoleg y pridd  
Natur gyfoethog ac amrywiol  
Ynni  
Sgrinio tirwedd  
Cysylltedd tirwedd  
Hamdden; ac  
lechyd a lles pobl.

Mae amrywiaeth o faterion yn effeithio ar fawndiroedd, afonydd a gwlyptiroedd:

Dylanwadau ucheldir ar statws ecolegol cymedrig yn hytrach na da yn y rhan fwyaf o afonydd y Parc;  
Dylanwadau ucheldir ar gyflwr a statws ecolegol nad ydyn nhw ar eu gorau yr Ardaloedd Cadwraeth  
Arbennig (Afonydd Wysg a Gwy, Llyn Llangors, Bannau Brycheiniog, Safleoedd Ystlumod yr Wysg) a  
Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig;  
Draenio ac erydu mawndiroedd, â rhannau helaeth o fawndir moel ac wedi erydu ar orgorsydd;  
Effeithiau hanesyddol gorburi a llygredd atmosfferig, gan ffafrio rhywogaethau fel glaswellt y  
gweunydd;  
Pa mor agored yw gorgorsydd i danau gwyllt bwriadol;  
Sicrhau a chynnal y lefelau iawn o bori cymysg a bugeilio yn yr ucheldiroedd;  
Dileu defnydd anghyfreithlon oddi ar y ffordd yn yr ucheldiroedd;  
Pridd agored ac erydu pridd sy'n arwain at lygru'r afonydd;  
Prinder coridorau afonydd â llystyfiant ar y prif afonydd;  
Cynnydd a lledaeniad Rhywogaethau Estron Goresgynol dyfrol ac ar lannau'r afon;  
Gostyngiad yn nifer y pysgodfeydd dŵ r croyw yn nalgylchoedd afon Wysg, Gwy a Thaf;  
Adfer coetir lled naturiol llydanddail ac ar lannau'r afon i wella ymdreiddiad dŵ r, dal gwaddod pridd,  
a gwella ecoleg y pridd a bioamrywiaeth;  
Datrys mynediad at ddŵ r at ddibenion hamdden i bysgotwyr a defnyddwyr crefftau dŵ r;  
Dileu llygredd dŵ r o ffynonellau domestig, adeiledig ac amaethyddol;  
Darparu cyflenwad dŵ r yfed a rhwydweithiau trin dŵ r gwastraff cynaliadwy a chadarn mewn  
ymateb i'r galw;  
Effeithiau gwasgfa glannau'r afon – colled llystyfiant ar lannau'r afon ynghyd â lefelau is o ollyngiad  
afonydd a dynesiad amaethyddiaeth a datblygiad;  
Gwella ansawdd y dŵ r ym Mharth Perygl Nitradau Llangors; a  
Chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o gadwraeth mawndiroedd, afonydd a gwlyptiroedd.

Ceir proffil o fawndiroedd, afonydd a gwlyptiroedd y Parc (Atodiad 2).

### **Camau sydd eu hangen i adfer mawndiroedd a gwlyptiroedd yn effeithiol**

O ganlyniad i statws ecolegol cymedrig yn hytrach na da afonydd y Parc ar y cyfan, mae angen gwaith adfer  
ecolegol ar yr afonydd a'u gwlyptiroedd cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys lleihau a dileu effeithiau andwyol  
tynnu dŵ r, erydu'r pridd, llygredd, darnio cynefinoedd, trefoli a rhywogaethau estron goresgynol. Mae'r  
prif sectorau sy'n dylanwadu ar y cynefinoedd hyn yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Dŵr Cymru, Cyfoeth  
naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd, Sefydliad  
Gwy ac Wysg, perchnogion tir glannau afon ac ucheldir preifat, ffermwyr, rheolwyr tir eraill ac Awdurdod y  
Parc Cenedlaethol.

Mae gan y Parc o leiaf pum ardal cyflawni mawndir a gwlyptir y gellir eu nodi ar gyfer rhaglenni rheoli tir  
integredig:

- i. Mynydd Du a Fforest Fawr y Gorllewin a rhagnentydd Tawe;
- ii. Fforest Fawr y Dwyrain – Manor Penderyn – Taf – Canol y Bannau (a Mynydd Llangynidr  
Mynydd Llangatwg);
- iii. Mynyddoedd Duon;

- iv. Llangors – dalgylch Gwy; a
- v. Dalgylch Wysg.

Mae angen y canlynol arnom hefyd:

Rhaglen adfer mawndiroedd, afonydd a gwlyptiroedd unedig  
Cynllun Rheoli Tir Amgylcheddol a gwasanaeth ymgynghori wedi'u hariannu'n llawn  
Rhaglen tymor hir i godi ymwybyddiaeth a sicrhau ymgysylltiad  
Diffiniad ar gyfer Statws Cadwraeth Ffatriol<sup>3</sup> mawndiroedd, afonydd a gwlyptiroedd ym  
Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog  
Pennu amcanion, llwybr ac amserlen i gyflawni statws cadwraeth ffatriol, gan gynnwys:

Gwarchod ac adfer yr holl fawndir moel, sy'n erydu ac sydd wedi'i ddraenio  
Cyflwyno trefniadau rheoli tir cynaliadwy ac integredig, yn arbennig pori cymysg  
dwysedd isel a rheoli llwyth tanwydd  
Adfer ac ehangu coetir gorlifdir  
Adfer coetir glan yr afon  
Gwarchod pyllau presennol a chreu rhai newydd a pharthau mylol gwlyptiroedd  
Rheoli, a dileu pan fo hynny'n bosibl, rhywogaethau estron goresgynnol dyfrol ac ar  
lannau'r afon  
Dileu llygredd ac erydiad pridd  
Adennill gollyngiad afon mwy cyson drwy gydol y flwyddyn  
Gwarchod yr amgylchedd hanesyddol  
Darparu mynediad cyfiawn, teg a chyfartal at ddŵ r i'r holl ddefnyddwyr hamdden  
Darparu cymhelliant cyfiawn a theg i reolwyr tir er mwyn iddynt gyfrannu at  
welliannau natur sy'n darparu buddion i'r cyhoedd  
Mynnu'r egwyddor bod yr un sy'n llygru yn talu  
Lleihau'r defnydd o ddŵ r  
Cynyddu cadernid y dirwedd trwy ddal dŵ r  
Cyflawni gwell ansawdd yn yr amgylchedd adeiledig o fewn dyffrynnoedd afonydd  
sy'n llawn cyfoeth ecolegol  
Sicrhau bod Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy yn cyfrannu gymaint â phosibl  
Peidio â chaniatáu gwaith adeiladu newydd ar orlifdir  
Comisiynu ymchwil ar waith adeiladu addas ar orlifdir.

Yn ogystal â chmau gweithredu ar ein tir a'r rhai yr ydym yn eu cynnal ar ran perchnogion tir eraill ar eu  
tir nhw, byddem yn croesawu cyfleoedd i roi cyngor a chymorth i berchnogion tir sicrhau'r cyfleoedd  
gorau i adfer eu mawndiroedd, afonydd a gwlyptiroedd trwy'r canlynol:

Gweithredu cynlluniau adfer ar gyfer mawndiroedd sydd wedi erydu a'u draenio;  
Adfer gorgorsydd glaswellt i fod yn fawndiroedd iach;  
Rheoli cyforgorsydd iseldir, mignenni a chorsydd dyffrynnoedd i gyflawni gwerth natur uwch;  
Osgoi llosgi a dileu tanau bwriadol a thanau gwyllt ar orgorsydd;  
Adfer llystyfiant ar lannau afon ar hyd coridorau afonydd;  
Adfer gwlyptiroedd gorlifdir ac ardaloedd coediog; a  
Helpu perchnogion tir i ddatblygu eu syniadau a'u cynlluniau adfer eu hunain.

---

<sup>3</sup> <https://ieep.eu/publications/how-is-favourable-conservation-status-being-defined-across-the-eu>